
Fest afal
Nodiadau Blasu
garddfotaneg.cymru
Gardd Fotange Genedlaethol Cymru

**Afal y Groes** ·Aafal dau bwrpas canol tymor, lliw hufen i wyn melyn, gweddol galed, llawn sudd, nid yn asidig, melys gyda blas hyfryd, wedi'i ddarganfod ym Mhen-y-bont, Maesyfed.

**Baker's Delicious** · Wedi'i ddarganfod yng Nghymru. Hardd, oren cochlyd llachar ar aur. Cryf, llawn sudd a siwgwr, asidig, eithaf cryf, blas aromataidd, tu mewn lliw hufen trwchus.

**Enlli / Bardsey** · Darganfuwyd gan Ian Sturrock ar Ynys Enlli ym 1999, ger olion y fynachlog o'r 13edd ganrif. Afal maint canolig gydag arogl lemwn arbennig. Melys a llawn sudd.

**Brith Mawr** · Yn wreiddiol o Gasnewydd, afal enwog iawn yn Ne Cymru ar un adeg. Gall y ffrwyth ffres fod yn siarp, ei ddefnyddio i goginio; ar ôl ei storio mae'n troi'n afal bwyta cryf.

**Channel Beauty** · Cynhyrchwyd gan C. H. Evans, Abertawe. Blas sawrus da; crensiog, llawn sudd; gall fod yn rhy siarp; math poblogaidd yn Ne Cymru yn y 1920-30au.

**Charlotte Daunt** · Afal coginio canol/diwedd tymor, lliw hufen, gweddol galed, cwrs, lled sur, ychydig felyster, 'awgrym o rywbeth diddorol'. Darganfuwyd yn Iwerddon a Swydd Henffordd.

**Cissy** · Codwyd yn 1750-1800 gan Mr Tamplin, Malpas, Gwent. Dosbarthwyd gan ei chwaer Cissy. Awgrym o goch. Melys, eithaf cryf, arogl blodau, tu mewn. Poblogaidd ym marchnadoedd Sir Fynwy yn y 19edd ganrif.

**Crimson Queening** · Cofnodwyd gyntaf ym 1831. Gwrymiau neu gorneli amlwg, sef onglog; lliw coch tywyll. Melys, arogl blodau, tu mewn lliw hufen ysgafn.

**Cummy Norman** · Yn wreiddiol o Cummy, Sir Faesyfed. Afal seidr sur-felys o Gymru o'r 1800au. Tu mewn lliw hufen a meddal. Melys ac ychydig yn aromataidd.

**Dôl Afallen** · Afal dau bwrpas canol tymor; gwyn, caled, crensiog, llawn sudd, lled sur gydag ychydig felyster, tang hyfryd, gwych i'w droi'n sudd; tebyg iawn i Onibury Pippin; ei ddarganfod yng Nghwm Elan.

**Ecklinville** · Afal coginio ail gynnar. Meddai Joan Morgan: yn coginio'n sudd blasus, siarp, medda, ddim mor siarp â'r Golden Noble; tarddu o Ogledd Iwerddon.

**Frederick** · Darganfuwyd yn blanhigyn ifanc yn Fforest Ddena, Sir Fynwy yn y 1880au. Tu mewn gwyn gyda staen coch dan y croen. Aromataidd. Afal seidr siarp llawn.

**Gabalfa** · Afal coginio o ardal Caerdydd, poblogaidd iawn mewn pasteiod a thartennau. Tu mewn melyn, ychydig yn sych a sbeislyd.

**Gilfach** · Afal coginio canol tymor, lled sur, ychydig felyster, braidd yn gwrs heb fawr o flas; y blodau i'w gweld yn dioddef rhew yn anarferol o dda, darganfuwyd yn Sir Faesyfed.

**Grosmont Glory** · Darganfuwyd fel hen goeden yn tyfu yn y Grysmwnt, Sir Fynwy gan Rwydwaith Afalau'r Gororau.

**Gwentlea Snout** · Darganfuwyd fel hen goeden yn tyfu ym Mronllys, Powys. Afal pigfain deniadol dau ddiben gyda stribedi rhytgoch ar afal gwyrdd gydag arlliw coch.

**Keeper's Gift** · Darganfuwyd ger Cas-gwent. Afal dau ddiben canol i ddiwedd y tymor, llawn sudd.

**Kenneth** · Tyfwyd ym 1920 gan Kenneth McCreadie, y Rhyl. Blas ffrwyth eithaf cryf, adlais o Blenheim Orange ond mwy o sudd. Golwg ddigon anniddorol.

**Kerry Pippin** · Eithaf bach, lliw fel pili-pala trilliw a 'gem' fel pwdin yn Oes Victoria. Blas cryf, dwys, melys, digon o asidedd, tu mewn cadarn.

**King of Pippins** · Aeddfedu'n dda, eithaf melys, digon o asidedd, caled, digon o sudd, ond fel rheol gyda blas sur.

**Llanerchaeron Peach** · Cadarn, afal coginio siart, hwyr yn y tymor, darganfuwyd ym mhlasty Llanerchaeron a'i gael hefyd yng Nghernyw ac Iwerddon, er na wyddys ei darddiad. Afal golygus.



**Lord Grosvenor** · Afal coginio ffrothlyd tebyg i gorafal, llawn sudd, siarp. Ei dyfu'n eang gynt mewn gerddi ac i'r farchnad, ond trechwyd ef yn y 1920au gan Early Victoria.

**Machen** · Yn wreiddiol o Gaerffili, afal dau ddiben poblogaidd iawn ar un adeg. Afal yn coginio'n dda ac yn dod yn afal bwyta llawn sudd. Math cochach o'r Brith Mawr, ac felly nodweddion tebyg.

**Marches Greening** · Dwy goeden debyg a ddarganfuwyd yn Sir Gaerfyrddin a Swydd Amwythig. Afal dau ddiben canol tymor, blas hyfryd lled sur a gweddol felys.

**Marged Nicolas** · Afal lleol o Ddinefwr. Afal dau ddiben.

**Morgan Sweet** · Mae'r afal hwn yn mynd yn ôl i'r 18fed ganrif, yn boblogaidd iawn gyda glowyr De Cymru gan fod y blas siarp ond melys yn torri'r syched i lawr yn y pwll. Tarddu o Wlad yr Haf.

**Pen Caled** · Afal seidr o Landudoch ger Aberteifi.

**Perthyre** · Afal seidr sur-felys canol tymor; o Sir Fynwy

**Pig Aderyn** · Darganfuwyd yn tyfu yn Abaty Llandudoch ger Aberteifi. Hen fath efallai o darddiad Normanaidd. Croen gwyrdd gyda streipiau coch tywyll. Tu mewn melys yn llawn sudd. Afal seidr ffrwythau da.

**Pig yr Ŵydd** · Yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin, afal coginio enwog yn lleol o ardal Dinefwr. Croen gwyrdd a thu mewn pinc.

**Severn Bank** · Disgrifiwyd ym 1884. Yn coginio i roi puree siarp. Caled, yn teithio'n dda, tyfwyd yn yr 19edd yn Nyffryn Hafren a Swydd Gaerloyw ar gyfer marchnadoedd Canolbarth Lloegr.

**St Cecilia** · Tyfwyd yn 1900 gan John Basham a'i Feibion, Basaleg, Sir Fynwy. Dwys, cryf, aromataidd. Melys, llawn sudd, siarp, ond gall fod yn llai cyffrous, croen hytrach yn galed. Afal gardd poblogaidd yng ngorllewin Prydain.

**Tanat Reviver** · Afal amlbwrpas ail dymor cynnar; nodyn gan Welsh Perry and Cider Society: 'when ripe the apples are sweet and are good for eating, but also work well for cooking, juicing and cider'; darganfuwyd yn Nyffryn Tanat.

**Tŷ Du 2 'Strange'** · Afal bwyta bach/canolig canol i ddiwedd tymor'; melys, siarp, gwead da; tarddu o Lannarth Sir Fynwy.

**Underleaf** · Wedi'i achredu ym 1946. Blas tebyg i Blenheim; melys; blas plaen ffrwythau, tu mewn braidd yn friwsionllyd.

**Welsh Druid** · Afal amlbwrpas canol tymor gyda blas braidd yn gyffredin; math ystenllys neu gainc gnotiog (felly tyfiant estyn yn gwreiddio'i hun); darganfuwyd yn Bigsweir, Brockweir yn Fforest Ddena.

**Welsh Pitcher** · Afal dau bwrpas tymor cynnar; lliw hufen, braidd yn feddal, cwrs, lled sur, blas ffres dymunol; math ystenllys neu gainc gnotiog (felly tyfiant estyn yn gwreiddio'i hun); adnabyddus mewn ardaloedd ledled De Cymru, Sir Fynwy i Sir Benfro.



Marcher Apple Network

Garddwriaeth Cymru
Horticulture Wales

Delweddau: Tim Jones Photography a Jac Towler · Testun: Alex Summers · Dylunio: Jac Towler